MP 115a – Strategaeth Carthu Harbwr Pwllheli – Adroddiad i Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

1. Y Strategaeth Arfaethedig

1.1 Sail y Strategaeth /Materion Allweddol

Penodwyd cwmni Marina Projects gan Gyngor Gwynedd er mwyn paratoi strategaeth carthu ar gyfer Harbwr Pwllheli dros y deg i bymtheg mlynedd nesaf. Erbyn hyn, mae datblygiad y Strategaeth yn prysur ddod i ben (drafft terfynol) ac mae'r adroddiad hwn a chyflwyniadau cysylltiedig ar gyfer y Pwyllgor Ymgynghorol yn ffurfio rhan allweddol o'r ymgynghoriad.

Amlinellir isod y materion allweddol sydd wedi ffurfio datblygiad y strategaeth:

1. Mae carthu yn Harbwr Pwllheli yn broblemus a drud oherwydd y rhwystrau cyffredinol. Bydd unrhyw waith carthu angen opsiwn gwaredu lleol os yw'r datrysiad am fod yn effeithiol.
2. Mae tri pharth penodol o fewn yr Harbwr, sef Mynedfa'r Harbwr, y Sianel Fynediad a Basn yr Hafan.
3. Prif ffynhonnell y croniant yn yr harbwr yw'r prosesau arfordirol sy'n dyddodi llifwaddodion, tywod a graean trwy'r Harbwr i gyd. O ganlyniad i'r prosesau naturiol, mae cyfansoddiad y deunyddiau yn y Fynedfa, y Sianel Fynediad a Basn yr Hafan yn amrywio - o gynnwys uchel o raean ym Mynedfa'r Harbwr i gymysgfa o dywod/gwaddodion ym Masn yr Hafan.
4. Pan grëwyd Basn y Marina, y Sianel Fynediad a Mynedfa'r Harbwr cawsant o eu gor-garthu'n sylweddol.
5. Mae dangosyddion clir bod Sianel Fynediad / Mynedfa lydan yn cynyddu lefel y croniant trwy'r holl Harbwr.
6. Ni chafodd y Sianel Fynediad erioed ei charthu ac erbyn hyn, nid yw'r cymhorthion mordwyo yn dangos gwir leoliad y sianel fynediad.
7. Mae'r dyfnder a gynlluniwyd ym masn yr Hafan yn rhoi mwy na digon o ddyfnder na'r hyn sydd yn ofynnol ar gyfer y rhan fwyaf o gychod.
8. Mae'r morlyn distyllu yn hanfodol ar gyfer carthu o fewn yr Harbwr. Mae angen mynd i'r afael â thrwyddedu safleoedd lle dyddodir deunyddiau neu ble y cânt eu pentryrru ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol.

Felly, yn greiddiol i'r strategaeth, mae angen lleihau'r baich carthu cynnal a chadw blynyddol i'r lefel isaf sy'n ymarferol. Yn ogystal, ystyrir yn briodol y dylai unrhyw strategaeth yn y dyfodol ganolbwyntio ar sicrhau bod Mynedfa'r Harbwr a'r Sianel Fynediad yn cael eu cynnal a'u cadw a'u marcio'n briodol er mwyn sicrhau y gall holl ddefnyddwyr yr Harbwr wneud y gorau ohonynt.

## 1.2 Crynodeb o'r Argymhellion

Cynnwys yr adran a ganlyn grynodeb o'r 23 argymhelliad manwl a gynhwysir yn y prif Adroddiad Strategol Carthu.

Argymhellion 1 a 2 – Parhau gyda'r arolygiadau hydrograffeg blynyddol trwy'r holl Harbwr ac asesiadau o'r cyfraddau croniant sy'n mynd ymlaen a pharhau â'r gwaith carthu.

Argymhellion 3 a 4 - Sicrhau y bydd unrhyw waith carthu yn y dyfodol yn gwneud y gorau o led y sianel ym Mynedfa'r Harbwr. I'r perwyl hwn, dylid mabwysiadu'r proffil a amlinellir yn Dwg Rhif CPF/1191/Spec Rev B yn ogystal â chadw'r dulliau presennol.

Argymhelliad 5 - Dyhead mwy hirdymor (unwaith y bydd strategaeth hyfyw a chynaliadwy yn ei lle), fydd adolygu'r potensial er mwyn cynyddu'r dyfnder ym Mynedfa'r Harbwr (a'r Sianel Fynediad) i 0.5 m.

Argymhellion 6, 7, 8 a 9 - Dylid mabwysiadu proffil y Sianel Fynediad a amlinellir yn Drg Rhif CPF/1191/Spec Rev B a dylid ymgymryd â charthu yn y Sianel fel blaenoriaeth. Yn ogystal, dylai'r cymhorthion mordwyo sy'n nodi lleoliad y Sianel Fynediad gael eu hail-osod. Yn ei dro, (ond dim ond os gellir ymdrin â'r baich carthu ychwanegol trwy gyfrwng y strategaeth), dylid ystyried ehangu lled y sianel o 25m i 30m ac i leoli'r sianel fynediad er mwyn adlewyrchu'r dŵr dyfnach naturiol.

Argymhellion 10 a 12 – Cyfuno'r gwaith carthu yn yr Hafan gyda'r gwaith carthu yn y Sianel Fynediad gan roi blaenoriaeth yn y tymor byr i'r gwaith yn y sianel.

Argymhellion 11 a 13 - Mabwysiadu proffil dyfnder carthu gwahanol ar gyfer basn yr Hafan sy'n adlewyrchiad gwell o natur y cychod sy'n angori yn yr Hafan. Yn yr hirdymor ystyried uchelbrisio'r angorfeydd dyfnaf.

Argymhellion 14, 15 a 16 - Ymgymryd ag ymchwiliadau er mwyn cadarnhau proffil y deunydd yn y morlyn distyllu - adnabod yr opsiynau ar gyfer ail-ddefnyddio'r deunydd a'i waredu mewn ffordd sy'n gost effeithiol. Symud deunydd addas i'w bentyrru er mwyn rhyddhau capasiti a sefydlu cynllun blynyddol er mwyn darparu capasiti digonol.

Argymhellion 17 a 18 - Sicrhau bod y caniatâd a'r trwyddedau gofynnol yn eu lle er mwyn cael hawl ar gyfer y morlyn distyllu a'r gweithgareddau cysylltiedig. Sicrhau bod rheolaeth ddigonol a diogelwch ar gyfer y morlyn.

Argymhellion 19 a 20 - Ymgymryd â phroses dewis contractwr er mwyn adnabod sefydliad profiadol proffesiynol addas fydd yn medru ymgymryd â gwaith carthu cynnal a chadw. Ystyried sefydlu contract cynhwysfawr â thelerau ar gyfer ymgymryd â charthu cynnal a chadw, rheoli capasiti'r morlyn, gwaith cynnal a chadw ar isadeiledd perthnasol yn yr harbwr, trwyddedau a chaniatâd, gwaith arolygu.

Argymhellion 21 a 22 - Bellach, ni ellir ystyried bod y carthwr 'Nessie' ac offer cysylltiedig sydd biau'r Cyngor yn addas ar gyfer gweithredu yn Harbwr Pwllheli. Nid

oes ychwaith angen y cwch gwaith ‘Syrfëwr’ sydd biau’r Cyngor. Argymhellir y dylid rhoi’r carthwr a’r offer ar werth/ eu gwaredu.

Argymhelliad 23 - Unwaith y bydd y strategaeth carthu wedi ei chadarnhau, rhaid adolygu sail y Cynllun Rheolaeth y Morlin presennol. Rhaid ymgymryd ag asesiad priodol ac Asesiadau Ardrawiad Amgylcheddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn addas i bwrpas a hefyd bod yr ardrawiadau o ganlyniad i newidiadau yn y carthu a dulliau gwaredu’r deunydd yn cael eu nodi. Gan ragdybio y bydd y newidiadau hyn yn parhau yn ddibwys neu yn rai y gellir eu rheoli, gellir diweddaru’r asesiadau hyn yn ôl y gofyn. Diweddaru’r holl asesiadau a derbyn y Trwyddedau a’r Caniatâd priodol.

1.3 Ariannu

Mae’n amlwg bod angen peth gwaith er mwyn adfer mannau yn yr Harbwr i lefelau cynaliadwy fel y bo lefelau’r croniant yn gosod gwaelodlin a ellir ei rheoli ac y gellir cynllunio carthu cynnal a chadw yn ei herbyn yn y dyfodol. Mae angen carthu yn y tymor byr er mwyn ailsefydlu’r lefelau dyluniad arfaethedig yn y Fynedfa, y Sianel Fynediad a Basn yr Hafan. Dros gyfnod o amser, mae gor-garthu sylweddol a darparu gormod o ddyfnder o fewn basn yr Hafan wedi aflunio’r baich carthu yn nhermau cyfaint y deunydd i’w symud a hefyd y costau cysylltiedig. Yr un mor bwysig yw diffyg ailgylchu’r deunydd o fewn y morlyn distyllu sy’n mynnu gwariant yn gysylltiedig a chreu capasiti sbâr a chynnal y capasiti angenrheidiol ar gyfer y dyfodol.

Mae gwerthusiad cychwynnol o’r gyllideb carthu flynyddol yn gryn £182,000 y flwyddyn. Mae hyn yn rhagdybio y cwblheir y carthu pob gaeaf. Dylid nodi bod dros draean o’r gost yn gysylltiedig ag ymdrin â’r deunydd yn y morlyn distyllu. Efallai y byddai’n bosibl ymgymryd a charthu cynnal a chadw bob dwy flynedd a thrwy hynny leihau ardrawiad y costau gweithredu a rhoi gwell gwerth am arian. Bydd hyn i raddau helaeth yn ddibynnol ar sicrhau bod capasiti digonol ym medru cael ei greu o fewn y morlyn distyllu. Mae’n gwbl glir bod capasiti’r morlyn distyllu yn allweddol i’r strategaeth a hefyd adnabod dulliau cost effeithiol o ail ddefnyddio ac /neu waredu’r deunydd fydd yn un o’r rhwystrau cyllidol pennaf.

Gyda golwg ar amseru, rhagwelir y bydd y strategaeth yn cael ei sefydlu ar gyfer carthu yn ystod gaeaf 2009/10. Y rheswm am hyn yw’r angen i gwblhau peth ymgynghoriad sydd heb ei gwblhau e.e. gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Phwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr. Yn ogystal, mae angen datrys y gofynion trwyddedu, yn arbennig ar gyfer y morlyn distyllu. Yn y cyfamser, rhagwelir y bydd y gweithredoedd a ganlyn yn digwydd dros y chwech i naw mis nesaf:

- Gwneud arolwg hydrograffeg a diweddaru’r asesiadau gwaddodi ffeithiol
- Os bydd angen, ymgymryd â gwaith carthu cyfyngedig ym Mynediad yr Harbwr er mwyn cynnal y proffil dylunio.
- Cynnwys mynegiant diddordeb mewn cyhoeddiadau addas, ymgymryd ag ymarfer gwerthuso contractwr ac adnabod contractwr dewisol.

- Derbyn pob trwydded ar gyfer rheoliadau gwastraff – deddfwriaeth newydd e.e. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, Ebrill 2008.
- Ailymweld ac adolygu pob asesiad amgylcheddol fel bo'r angen.
- Gwneud cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gymorth grant er mwyn cynnal strategaeth maeth.
- Paratoi manyleb carthu a dogfennau'r contract.
- Cwblhau dull (rip rap) o ddiogelu'r bwnd ar ochr y môr i'r morlyn distyllu.
- Cwblhau newid y pyst pren am rai o ddur galfanedig ar ffens ddiogelwch y morlyn.
- Cwblhau gwaith trwsio cynhwysfawr ar y grwyn
- Darganfod ffyrdd o greu capasiti sbâr yn y morlyn gan gynnwys treialu'r hyn a argymhellir yn Argymhelliad 14.

Paratowyd cyllideb ar gyfer carthu a gwaith cysylltiedig ar gyfer 2008/09 a bydd hyn oddeutu £88,000, gan ragdybio y bydd yn rhaid ymgymryd â gwaith carthu cyfyngedig ym Mynedfa'r Harbwr.

Marina Projects Ltd.

9 Hydref 2008.